





## Tymor newydd

Rydyn ni dridiau i mewn i'r tymor newydd ac mae'r plant wedi setlo'n dda nôl i drefn yr ysgol. Diolch i chi i gyd am eich cydweithrediad yr wythnos hon. Mae eich gweld yn tywys eich plant i'w dosbarthiadau yn y boreau a'r cyffro yn wynebau'r plant yn hyfryd! Wythnos nesaf mi fyddwn yn dychwelyd at y drefn o ollwng wrth y giât. Y rheswm dros hyn yw i gadw'r safle a'r plant mor ddiogel â phosib. Mae croeso i rieni plant y Meithrin fynd i ddrws y Meithrin os ydych yn dymuno. Os yw eich plentyn yn pryderu am y boreau cofiwch gyfathrebu hynny gyda'r athrawon er mwyn i ni eich cynorthwyo.

## *New term*

*We are three days into the new term and the children have settled back well into the school routine. Thank you all for your cooperation this week. It has been lovely to see you bringing your children to their classes in the mornings and the excitement on the children's faces! Next week we will be returning to the routine of dropping off at the gate. The reason for this is to keep the site and the children as safe as possible. Parents of Nursery children are welcome to go to the Nursery door if you wish. If your child is feeling anxious in the mornings, please remember to communicate this with the teachers so that we can support you.*



## Prydlondeb

Hoffwn bwysleisio pwysigrwydd prydlondeb yn y boreau os gwelwch yn dda. Mae cychwyn prydlon yn y boreau yn cynorthwyo'r plant i ddilyn patrwm da weddill y dydd. Mae'n medru lleihau eu pryder yn ogystal, a sicrhau nad ydynt yn colli unrhyw wybodaeth neu drafodaethau pwysig wrth gychwyn y diwrnod ysgol.

## *Punctuality*

*I would like to emphasise the importance of punctuality in the mornings, please. A prompt start in the mornings helps the children to follow a good pattern for the rest of the day. It can also reduce their anxiety and ensure that they do not miss any important information or discussions at the start of the school day.*



## Chwaraeon

Mi welwch ar y Calendr Hanner Tymor fod ymarferion chwaraeon a nofio ar gyfer plant hŷn yr ysgol yn cychwyn wythnos nesaf. Bydd yr ysgol yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o dwrnameintiau hefyd fel y nodir ar y calendr.
Fel y llynedd, bydd Blwyddyn 6 yn cymryd rhan yn y gêmau hoci cyfeillgar pob nos Iau rhwng 4 a 5 o'r gloch ar faes chwarae pob tywydd Canolfan Hamdden Plascrug.

## *Sports*

*You will see on the Half Term Calendar that sports practices and swimming for the older pupils in the school will begin next week. The school will also be taking part in a variety of tournaments, as noted on the calendar.*
*As last year, Year 6 will be taking part in the friendly hockey games every Thursday evening between 4 and 5 o'clock on the all-weather pitch at Plascrug Leisure Centre.*



## Gwisg ysgol

Mae ymdrech pawb gyda gwisg ysgol i'w ganmol. Diolch yn fawr am hyn. Mae rhai syniadau wedi ein cyrraedd ynglŷn ag ychwanegu eitemau at y wisg – byddwn yn trafod hyn yn ein cyfarfod C.Rh.A nesaf. Ar ddiwrnodau Addysg Gorfforol, mae croeso i'r plant ddod â thop gwahanol i newid iddo ar gyfer gwneud chwaraeon.

## *School Uniform*

*Everyone's effort with school uniform this week is to be commended. Thank you very much for this. Some suggestions have reached us regarding adding items to the uniform – we will discuss this in our next PTA meeting. On Physical Education days, children are of course welcome to bring a different top to change into for sports.*




## Manylion y Barbeciw Haf:

### Heddiw yw'r diwrnod olaf i brynu tocynnau!

Mae'r tocynnau i'r barbeciw ar werth heddiw am y tro olaf yn Swyddfa Mrs Wendy James.
Medrwch dalu gydag arian parod neu gyda cherdyn.




Mae 4 math gwahanol o docyn:

- Selsig: £3.50
- Byrgyrs: £4.50
- Rhost (Porc): £6
- Byrgyr Figan: £4

Bydd rhaid prynu tocyn ymlaen llawn os ydych am fwyta ar noson y barbeciw. Ni fydd tocynnau ar werth ar y noson. Bydd Mynediad am ddim.




### A fedrwch gyfrannu os gwelwch yn dda?

Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 : SALAD
e.e salad cymysg, colslô, salad tatws ayyb (i ddod gyda chi i'r barbeciw ar y noson)



Blwyddyn 3 a 4 : SIOCLED
e.e bariau amlbecyn (i gyrraedd yr ysgol erbyn dydd Mawrth $9^{fed}$ o Fedi)

Blwyddyn 5 a 6 : RHODDION LLIW I'R RAFFL
Dewch â rhoddion lliw coch, glas neu felyn ar gyfer y raffl (i gyrraedd yr ysgol erbyn dydd Mawrth $9^{fed}$ o Fedi) ee teganau, bwydydd, teganau meddal, peli, llyfrau.




### Dolen i'r rhaglen:

Dyma ddolen i'r rhaglen – sy'n llawn gwybodaeth am amseroedd y perfformiadau llwyfan gan y plant, a'r stondinau amrywiol fydd yno. Nodwch fod y dyddiad ar y clawr yn anghywir.




Barbeciw Haf 2025

## *Summer Barbecue Details:*

### *Today is the final day to buy tickets!*

*Barbecue tickets are on sale today for the last time from Mrs Wendy James' Office.*
*You can pay with cash or card.*

*There are 4 different types of ticket:*

- *Sausage: £3.50*
- *Burger: £4.50*
- *Roast (Pork): £6*
- *Vegan Burger: £4*

*Tickets must be bought in advance if you wish to eat at the barbecue evening. No tickets will be available on the night. Entry is free.*

### *Can you contribute, please?*

*Nursery, Reception, Year 1 & 2: SALAD*
*e.g. mixed salad, coleslaw, potato salad, etc. (please bring with you on the evening of the barbecue)*

*Year 3 & 4: CHOCOLATE*
*e.g. multipack bars (to arrive at school by Tuesday, $9^{th}$ September)*

*Year 5 & 6: COLOURED RAFFLE DONATIONS*
*Please bring in donations in red, blue, or yellow for the raffle (to arrive at school by Tuesday, $9^{th}$ September) i.e toys, foods, soft toys, balls, books*

### *Programme link:*

*Here is the link to the programme – it's full of information about the timing of the children's stage performances and the various stalls that will be there. Please note the date on the cover is incorrect.*

Barbeciw Haf 2025

---

## Ymaelodi gyda'r Urdd

Ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd rydym yn annog disgyblion i ymaelodi gyda'r Urdd. Medrwch wneud hynny drwy fynd i Ymuno | Urdd Gobaith Cymru
Trwy fod yn aelod byddwch yn medru mynychu Clwb yr Urdd (Bl.1-6) a chymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon ac eisteddfodol yn ystod y flwyddyn.

## *Urdd Membership*

*At the start of a new school year we encourage pupils to join the Urdd. You can do so by going to* Join | Urdd Gobaith Cymru

*By being a member you will be able to attend Clwb yr Urdd (Yrs.1-6) and take part in sports and eisteddfod competitions during the year.*

## Digwyddiadau a llwyddiannau

Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol.
O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.


Instagram

## *Events and achievements*

*Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news.*
*From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.*

Instagram

---



## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor
Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half term Calendar*

*Here is the link to the Half Term Calendar*
*A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

---

### Dyddiadau pwysig Tymor yr hydref:

- Barbeciw Haf y G.Rh.A : Medi 11eg
- Traws Gwlad Cylch Aber : Medi 25ain
- Tynnu lluniau unigol a theuluoedd : Hydref 7fed
- Diwrnod Rhyngwladol : Hydref 10fed
- Nosweithiau Agored : Hydref 20fed ac 21ain
- Diwrnod olaf yr hanner tymor hwn : Hydref 24ain
- Cyngerdd Nadolig : Rhagfyr 11eg

### *Autumn term important dates:*

- *PTA Summer Barbeque : September 11th*
- *Aberystwyth Area Cross Country : September 25th*
- *Individual and family photographs : October 7th*
- *International Day : October 10th*
- *Open Evenings : October 20th and 21st*
- *Last day of this half term : October 24th*
- *Christmas Concert : December 11th*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**05/09/2025**
www.ysgolgymraeg.cymru

@YrYsgolGymraeg
Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY231HL
swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk
Prifathro / *Headteacher:* Mr Gareth L James
01970 617613